OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 1692 (Cy.218)

DIOGELU'R ARFORDIR, CYMRU
DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU
RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD, CYMRU

Rheoliadau Dynodi Nodweddion (Hysbysiadau) (Cymru) 2012

Gwnaed - - - -	*28 Mehefin 2012*
Wedi'u gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru	*29 Mehefin 2012*
Yn dod i rym - -	*20 Gorffennaf 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, mewn perthynas â dynodi adeileddau neu nodweddion yng Nghymru, wrth arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 30 ac 48(2) o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (**1**), a pharagraff 16 o Atodlen 1 i'r Ddeddf honno yn gwneud y Rheoliadau canlynol.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Dynodi Nodweddion (Hysbysiadau) (Cymru) 2012 a deuant i rym ar 20 Gorffennaf 2012.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran dynodi adeileddau neu nodweddion yng Nghymru.

Hysbysiadau sy'n ymwneud â chaniatâd i addasu, tynnu ymaith neu amnewid adeileddau neu nodweddion dynodedig

2.—(1) Mae'n rhaid i hysbysiad a ddyroddir o dan baragraff 6(3)(b) o Atodlen 1 i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (hysbysiadau a roddir mewn modd ar wahân i gais gan y perchennog) nodi'r dyddiad y bwriedir y bydd yr hysbysiad yn cael effaith. Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i hwn fod yn ddyddiad 28 o ddiwrnodau fan leiaf wedi dyddiad dyroddi'r hysbysiad.

(2) Caiff y dyddiad y mae'n ofynnol ei bennu dan baragraff (1) fod yn gynt na 28 o ddiwrnodau os yw'r awdurdod cyfrifol yn ystyried bod hynny'n angenrheidiol mewn argyfwng.

(**1**) 2010 p.29. Mae paragraff 16 o Atodlen 1 i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn rhoi pwerau i "the Minister" ac mae paragraff 17 o Atodlen 1 i'r Ddeddf honno yn diffinio "the Minister" at ddibenion yr Atodlen honno.